@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff – Academi Dartiau Tonypandy

Cafodd Academi Dartiau Tonypandy ei sefydllu gan ddyn lleol ym mis Ebrill 2022. Roedd ef wedi sylwi doedd dim clwb arall yn yr ardal yn cynnig cyfle i bobl ifainc chwarae dartiau. Roedden nhw wedi dechrau sesiynau wythnosol ar gyfer pobl ifainc rhwng 8 ac 18 oed, ac o fewn dim o dro roedd ganddyn nhw tua **10** o aelodau iau. Roedden nhw wedi cysylltu â ni er mwyn derbyn cyngor a chefnogaeth, ac roedden ni wedi rhoi cymorth iddyn nhw gael mynediad i offer newydd. Roedd yr offer wedi'u galluogi nhw i ddarparu sesiynau o safon i'w haelodau cyfredol, gan hefyd rhoi'r cyfle i wahodd rhagor o aelodau.

Mae'r clwb wedi datblygu'n dda dros yr deunaw mis diwethaf, gyda nifer yr aelodau iau'n tyfu i dros **40** o aelodau. Mae yna **8** o wirfoddolwyr gweithgar sy'n cefnogi'r sesiynau, ac maen nhw wedi sefydlu pedair cynghrair sy'n cynnig cyfleoedd i'w haelodau chwarae'n gystadleuol a datblygu fel chwaraewyr dartiau. Yn dilyn twf yn niddordeb chwarae dartiau dros gyfnod y Nadolig oherwydd Pencampwriaeth Dartiau'r Byd, daeth y clwb aton ni am gymorth pellach. Roedden ni wedi rhoi cymorth iddyn nhw gael mynediad i offer ychwanegol er mwyn iddynt ymestyn ar yr hyn maen nhw'n ei gynnig. Erbyn hyn maen nhw'n gallu darparu cyfleoedd ychwanegol sy'n galluogi eu haelodau chwarae dartiau'n fwy rheolaidd mewn lleoliad mwy.

Mae rhai o'r bobl ifainc wedi elwa'n aruthrol o ganlyniad i ymuno â'r clwb. Esboniodd un rhiant doedd ei fab ddim yn fodlon gadael ei ystafell wely achos ei ddifyg hunan hyder. Diolch i'r academi mae ef wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi adeiladu gymaint yn fwy o hyder. Mae un o'r aelodau iau wedi cael ei ddewis i gynrychioli Sir Forgannwg ac yn datblygu'n gyflym drwy'r parth chwaraewyr oherwydd ei berfformaidau uchel.

> *"Diolch yn fawr i Chwaraeon Rhondda Cynon Taf am y gefnogaeth i dderbyn cyllid i brynu offer newydd. Mae'r cyllid wedi ein galluogi ni ddenu rhagor o chwaraewyr dartiau ifainc, ac rydyn ni'n parhau i allu tyfu nifer ein haelodau!"* Arweinydd Tîm
>
> *"Am glwb arbennig - mae fy mab wedi datblygu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn academaidd - mae ei fathemateg yn wych! Clwb arbennig sy'n cael ei redeg yn effeithiol!"* Rhiant
>
> *"Wedi magu hyder. Gwneud ffrindiau newydd. Trio datblygu i chwarae o safon"* Aelod iau

**46** aelod iau

**8** gwirfoddolwr

**96%** yn bwriadu parhau i gymryd rhan

Mae **92%** yn teimlo'n iachach

Mae **100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**92%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

Mae **100%** yn teimlo'n hapusach

Mae **100%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF